

2737 1/8
WYTH ODL,

FAWL I GRIST,

O WAITH GWAHANOL BRYDYDDION.

ABERYSTWYTH:

ARGRAFFWYD GAN JAMES A WILLIAMS.

1811.

I.—*David Thomas, Sir Gaernarfon.*

Pob perchen awen burwen barod,
Pob tafod yd gytun,
Rhowch fawl yn ufudd i Dduw nefol,
Trag'wyddol Tri ac Un,
I ganu 'n gynnar gyson-gerdd seingar;
Trigolion daear dewch,
Gwir fawl gorfoledd sain gysonaidd,
Anrhydedd rhwyddaidd rhowch.
Our God is full of grace,
Let all the human race
Pay their duty to th' Almighty,
Before his heavenly face.

CC 3568 1116

Fe ddaeth yr Iesu i'r ddaear isod,
 O'i hynod le ei hun;
 Fe wisgai 'n brysur, fel creadur,
 Am dano natur dyn.
 To save our souls from hell,
 That we may with him dwell;
 The love and mercy of the Deity
 No tongue can wholly tell.
 Am wneyd yn hapus ddyd truenus,
 Oedd glwyfus, fe gaiff glôd;
 Bydd parch ac urddas addas iddo,
 Tra byddo 'r nêf yn bod.



II.---*Jonathan Hughes.*

I NI mae 'n weddus felus foliant,
 Gogoniant Duw ar gân,
 Agoriad geiriau, yn ol ein doniau,
 O wir galonau glân,
 Gan geisio 'n gyson ganiadau Seion,
 I'r Iesu cyfion cu,
 Mewn odlau 'sbrydol, a Salmau duwiol,
 I'o 'n llesiol i bob llu,
 The duty of every kind,
 Of men with all their mind,
 To praise and honor our dear Savior,
 That favor we may find.
 Oblegid iddo blygu a dyodde'
 Hyd angau friwiau a frâd;

O gariad gwirfodd nef agorodd,
 Fe'i rhoddodd i ni'n rhâd.
 And yet doth always call,
 For sinners worse of all;
 He turn'd with bloody bruised body,
 The fury of Adam's fall.
 Mae gweinidogaeth iechydwriaeth
 Yn helaeth amlhau;
 Maddeuant pechod a gollyngdod,
 A chymmod i'n iachau.



III.---*Walter Davies, Llanfechen.*

CLYWAIS ganiad, lafar lefiad,
 Mewn tyniad pur gytun,
 A wnaeth dau brydydd o fawl i'n Harglwydd,
 Tragywyddol Tri ac Un:
 Hil brudd Hebron, greaduriaid gwaelion,
 Ni ddichon dynion doeth
 Roi haeddol wir-glôd i'r lân Drindod,
 Am ollyngdod cymmod coeth.
 By father Adam's fall,
 His offspring great and small,
 Were close confined, 'till Christ descended,
 Released healed all;
 Sef pawb a geisio grâs yn groeso,
 I'w roi iddo Seilo sydd,
 Ond y gwaharddedig lu golledig,
 Dan ysig beryg' bydd.


Sweet Jesus suffer'd sore,
 He shed his precious gore,
 To save the Christian from perdition;
 Could God or man do more?
 Pa'r galon galed wrth feddwl bured
 Bu'r Iesu cured côr,
 Na wylai ddagrau o wir gar'digrwydd,
 Er mawr-lwydd dîr a môr.



IV.---*William Jones, Rhôs-Llannerchrnog.*

MAE achos clymu mawl i'r Iesu,
 Yn awr dan ganu i gyd,
 Am ein dwyn allan o rwydau Satan,
 Oedd aflan lydan lid:
 Crist ei hunan ddaeth yn fuan,
 O'r grôth yn Faban byw,
 I achub gweiniaid bechaduriaid,
 Trwy wir ordeiniad Duw.
 Praise ye the blessed Lord,
 With voice of one accord;
 There is welcome in his kingdom,
 And freedom without fraud.
 Haleluia i'r Jehofah,
 A'r gwîr Fessiah sydd,
 Canwn, seiwiwn bawb Hosanna,
 Hynodaf benaf bydd.
 Let us to Jesus call,
 The Lord and King of all,

To God of union and religion,
 With true perfection fall.
 Rhoed nêf a daear yn gysongar,
 I Grist yn gynnar gân,
 Haeddiant, moliant, i Dduw'r gogoniant,
 A moliant fawr a mân.



V.---*Daniel Owens, Rhôs-Llannerchrigog.*

PAWB trwy'r gwledydd efo'u gilydd,
 Mewn perffaith grefydd gre',
 Anrhydeddwch un Duw'r heddwch,
 Na folwch ond efe;
 A'i un Fâb Iesu, a ddaeth i'n prynu,
 A'n tynu o ganol tân;
 Boed clôd anfeidrol, i'n Tâd nefol,
 Tragywyddol iddo ar gân.
 Come all you sinners mind,
 Turn sinful ways behind;
 The God of mercy, with great pity,
 Doth call---us very kind.
 Nesawn ato, gwrاندawn arno,
 Nid yw fo'n delio'n dÿn;
 Parch, anrhydedd, clôd, a mawredd,
 F'o i'r gweddaidd Iesu gwÿn.
 Let every living thing,
 His praise and glory sing,
 Shew their duty to th' Almighty,
 And call the heavenly King.

Mae fe'n barod i wneyd cymmod,
 Am bechod syndod syth;
 Rhown ninnau ogoniant am ein llwyddiant,
 Mawr foliant iddo fyth.



VI.—*Humphrey Jones, Penpont Llanychrymus.*

GAN i'r prydyddion manol mwynion,
 Wneyd y gyson gân,
 O fawl i'r Iesu am ein gwaredu,
 A'n tynu oll o'r tân;
 Rhof finnau foliant iddo'n bendant,
 Mewn ffyniant a gwir ffydd,
 Un a'n carodd, Tri'n achubodd,
 A'n rhoddodd oll yn rhydd.

Let us rejoice and sing,
 To Christ our Lord and King,
 From Satan's power every sinner,
 Our Brother us did bring.

'R hen Adda wreiddiol, a'n gwerthai i ddiabol,
 Yn blant uffernol ffau,
 Nes cael gwaed puredd Oen tangnefedd,
 Glân hoywedd i'n glanhau.

Lord God, we must obey,
 And Christ without delay;
 Praise him for ever, true Defender,
 And redeemer every day.

Boed clòd i'r Arglwydd, yn dragywydd,
 Sy 'n Llywydd nêf a llawr,

Ein aml feiau, anwireddau,
Duw, maddeu fach a mawr.



VII.---*John Williams, Abertawe:*

Y SAWL ga'dd deimlad ffydd a phrofiad,
O werthfawr gariad Crist,
Trwy faddeu ei bechod, rhyddhau'r gydwybod,
Oddiwrth bob trallod trist:
Mae'n achos iddo ganu ac uno,
I foli'r Seilo Sanct,
Am roddi'n rhyddion garcharorion,
Afradlon blinion blant.
Let us believe in thee,
By faith we shall be free,
From all damnation, evil devotion,
And motion of misery.
Y Balm of Gilead banner golau,
Ddatododd gloiau'r glÿn;
Llew o Juda a lyngodd angen,
Ar ben Calfaria fryn.
The only sinner's Friend,
We may in him depend;
Our best Redeemer, faithful Guider,
For ever to the end.
Iôr y lluoedd, Brenin nesoedd,
Ar y bydoedd sydd yn ben;
Iddo'n bendant, b'o'r gogoniant,
A'r moliant fyth, Amen.

VIII.--*David Saunders.*

Ar y mwynion lân brydyddion,
 Oedd *saith* wŷr hyfion hy;
 Minnau 'n *wythfed* ddôf â'm tynged,
 Am nodded yma i ni;
 Ni's gall eigion doniau dynion,
 Roi digon ya eu dydd,
 O glodforedd i'r Gogonedd,
 Yr hwn a'n dygai 'n rhydd.
 And bring us safe, you see,
 (Be not afraid) and free,
 That we'll never any further
 In bondage live and be.
 Gallu'r Daudod sydd i'w ganfod,
 I nôd ryfeddod fâith,
 A doethineb anfeidroldeb,
 Yn wyneb hyn o waith.
 The angels all above,
 Do praise with flaming love;
 May we here now procure
 A wing to do as dove.
 Tra fo'm yma, sŵn Hosanna
 F'o'n bena' o fewn i'n byd,
 Daw'n y diwedd i ni annedd,
 Yn llawn ei hêdd o hyd.

DIWEDD.

[*Pris Ceiniog.*]

John Thomas
 His Hand 1817